REYNOLDS, JOHN (fl. 1739), hynafiaethydd

Enw: John Reynolds
Priod: Eleanor Reynolds (née Burgess)
Rhiant: Gwen Reynolds (née Davies)
Rhiant: Jacob Reynolds
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: hynafiaethydd
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant
Awdur: Walter Thomas Morgan

mab Jacob Reynolds o'r Waun a Margaret, trydedd ferch Edward Davies o Riwlas, Llansilin, chwaer John Davies, achydd enwog. Priododd Eleanor, merch John Burgess o Groesoswallt, ac yn y dref honno y trigai. Yr oedd ef ei hun yn hynafiaethydd a gwnâi ddefnydd mawr o'r llawysgrifau a ddaeth i'w feddiant ar ôl marwolaeth John Davies, ei ewythr. Yn 1736 cyhoeddodd *Heraldry Displayed*, ail argraffiad o *A Display of Herauldry* gan John Davies, a gyhoeddwyd yn 1716. Yn 1739 cyhoeddodd *The Scripture Genealogy Beginning at Noah and To which is added the Genealogy of the Caesars and Also a Display of Herauldry of the particular Coat of Armours now in use in the Six Counties of North Wales, etc.* Nid yw'r llyfr hwn yn werthfawr iawn, ond y mae copïau ohono'n brin. Ceir copi ymhlith llawysgrifau Pen. (146) yn y Llyfrgell Genedlaethol. Y mae'r Llyfrgell yn berchen ar gopi arall (N.L.W. MS. 7192), ond y mae hwnnw'n amherffaith.

Awdur

Walter Thomas Morgan, (1912 - 1990)

Ffynonellau

W. Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry*, 311, 371, 380

J. Reynolds, *The Scripture Genealogy ... to which is added, the genealogy of the Caesars, British kings ... with the gentlemen of North Wales ... also a display of herauldry of the particular coat armours now in use in the six counties of North Wales ...* (Caer 1739), 117-8

Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties, 1930-1, 178, 181

Catalogue of Printed Literature in the Welsh Department, Cardiff Free Libraries (1898)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733627

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu